**Rebecca Evans MS/AS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfed Alsop
Prif Weithredwr
Awdurdod Cyllid Cymru

Copi i : Kathryn Bishop
Cadeirydd
Awdurdod Cyllid Cymru

Mawrth 2021

**CYLCH GWAITH AWDURDOD CYLLID CYMRU**

Roedd y Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2019 yn amlinellu fy nisgwyliadau ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) dros gyfnod cynllunio o dair blynedd o 2019-20 i 2021-22.

Wrth i ACC barhau i aeddfedu, eglurais bwysigrwydd cael y cyfle i ailystyried a diweddaru'r llythyr Cylch Gwaith bob blwyddyn er mwyn ystyried cynnydd ACC a'r cyd-destun ehangach y mae'n gweithredu ynddo, sy'n parhau i ddatblygu.

Mae pandemig y coronafeirws wedi golygu 12 mis eithriadol i bob un ohonom. Yn ystod y cyfnod hwn, mae ACC wedi sicrhau ei fod wedi gallu parhau i ddarparu ei wasanaethau allweddol. Yn ogystal, gan fod angen ymateb i effaith y pandemig, roedd angen rhywfaint o ailflaenoriaethu ac ad-drefnu adnoddau o fewn ACC ac ar draws Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i fod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran cylch gwaith a blaenoriaethau ACC yn ystod y misoedd nesaf wrth inni ddod allan o'r cyfyngiadau presennol. Yn yr un modd, gallai'r posibilrwydd o adleoli i swyddfeydd newydd yn ddiweddarach yn 2021 effeithio ar gapasiti ACC, a bydd angen hyblygrwydd i alluogi proses bontio lwyddiannus i'r safle newydd gan amharu cyn lleied â phosibl ar drethdalwyr.

Bydd Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru yn ysgrifennu ar wahân i ddyrannu cyllideb ACC yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, gan fod y gyllideb derfynol wedi'i chymeradwyo, gallaf gadarnhau y bydd y gyllideb refeniw yn cynyddu £300,000 y flwyddyn nesaf i £6,496,000. Roedd fy llythyr dyddiedig 4 Chwefror at y Cadeirydd yn nodi'r rhesymau dros y cyllid ychwanegol. Yn benodol, bydd y gyllideb gynyddol yn caniatáu i'r sefydliad barhau i ddatblygu ei ddull o "reoli risg treth" yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar

gefnogi pobl i'w gael yn iawn y tro cyntaf a'i gwneud yn anoddach i'r ychydig bobl hynny sy'n ceisio osgoi talu'r hyn sy'n ddyledus ganddynt.

Gan barhau â dull y llythyrau cylch gwaith blaenorol, mae'r llythyr hwn yn canolbwyntio ar dri maes eang sy'n ategu ei gilydd:

- datblygiad parhaus ACC;
- cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- datblygu'r tri maes strategol:
    - Rheoli risg treth
    - Treth Gwarediadau Tir ar Warediadau heb eu Hawdurdodi
    - Amcanion dylunio a data

## Datblygiad Parhaus Awdurdod Cyllid Cymru

- **Penodi aelodau anweithredol**

Rwyf yn ddiolchgar i'r aelodau anweithredol am eu gwaith caled yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

Un pwyslais allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf yw llenwi'n barhaol y swyddi anweithredol ar Fwrdd ACC sy'n cael eu llenwi dros dro am 12 mis ar hyn o bryd.

- **Cyllideb Awdurdod Cyllid Cymru yn y dyfodol**

Er mwyn iddynt gael eu hystyried mewn unrhyw ymarfer adolygu gwariant eleni, bydd yn bwysig cydweithio i sicrhau bod gennym gynlluniau cyllidebol i ACC ar gyfer y tair blynedd nesaf sy'n nodi gofynion cyllid refeniw a chyfalaf y sefydliad yn y dyfodol, yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau gweithredol a nodwyd.

- **Adolygiad Llywodraethiant ACC**

O ystyried bod ACC ar waith ers tair blynedd bellach, mae'n briodol adolygu pa mor dda y mae'r trefniadau llywodraethiant presennol yn gweithio. Mae profiad hyd yma o safle ACC fel adran anweinidogol yn Lywodraeth Cymru wedi dangos bod rhai agweddau ar y trefniadau presennol y byddai'n fuddiol eu harchwilio'n fanylach er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n adlewyrchu safle ACC o fewn Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn darparu set fwy priodol o drefniadau at y dyfodol.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Roedd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf ACC yn dangos bod cyflawni llwyddiannus yn digwydd yn unol â'r mesurau perfformiad allweddol. Mae'n bwysig bod

ACC yn parhau i adeiladu ar y perfformiad hwnnw ac yn parhau i gyflawni yn unol â'r dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt.

**Meysydd datblygu strategol allweddol**

- **Rheoli risg treth**

  Parhau i ddatblygu'r dull o reoli gwaith risg treth ar draws y pedwar maes risg treth, sef: adnabod, asesu risg, lliniaru a chywiro

- **Amcanion dylunio a data**

Mae llythyrau cylch gwaith blaenorol wedi cydnabod y manteision posibl a allai ddeillio o amcanion ACC, sef:

- Elwa i'r eithaf ar asedau data, gan gynnwys gwaith gyda phartneriaid sy'n dal data am drethdalwyr Cymru i wella'r ffordd y mae'r wybodaeth honno yn cael ei rhannu a'i dadansoddi

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ehangach i gefnogi, lle bo hynny'n briodol, y broses o ddylunio gwasanaethau refeniw cenedlaethol Cymru.

Rwy'n croesawu'r cydweithio yr wyf wedi'i weld hyd yma rhwng ACC, Trysorlys Cymru a Llywodraeth Cymru yn ehangach. Mae'n bwysig bod y cydweithio'n parhau wrth i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried ei blaenoriaethau ar gyfer trethi datganoledig. Rwyf hefyd yn awyddus i ACC fod yn rhan o'r rhaglen waith i ddatblygu trethi lleol fel rhan o'r gwaith diwygio ariannol o fewn llywodraeth leol yn y tymor hwy.

Rwy'n parhau i gefnogi nod ACC i sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf posibl o'r data a gedwir am drethdalwyr Cymru ac yn croesawu'r bwriad i edrych ar bwerau o fewn y Ddeddf Economi Ddigidol i weld sut y gall y data a gedwir gan ACC helpu sefydliadau partner. I mi, dyma ddechrau'r daith i wella'r ffordd y caiff data am drethdalwyr eu rhannu a'u dadansoddi er budd Cymru. Mae gan ACC rôl allweddol yn hyn o beth.

- **Gwarediadau heb eu hawdurdodi**

Rhagwelir y bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar Warediadau heb eu Hawdurdodi yn darparu dull arloesol o helpu i fynd i'r afael â throseddau gwastraff yng Nghymru. Mae mynd i'r afael â throseddau gwastraff, o ystyried ei effaith amgylcheddol a'i effaith andwyol ar fusnesau tirlenwi a rheoli gwastraff cyfreithlon, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith cwmpasu ACC yn 2020-21 wedi nodi sawl cyfle i fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn. Y flwyddyn nesaf, byddem yn disgwyl i ACC symud i'r cyfnod profi, ar y sail nad oedd yn ymarferol cynnal cyfnod profi yn 2020-21 oherwydd effaith COVID ar weithgareddau ACC. Bydd cam profi yn galluogi ACC a Llywodraeth Cymru i ystyried yr opsiynau ar gyfer

rhoi'r dreth ar waith yn y tymor hwy ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig, gan weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i archwilio'r manteision posibl a mynd i'r afael â'r risgiau cysylltiedig. Byddwn yn disgwyl i ACC adrodd yn ôl cyn diwedd 2021-22 ar ganfyddiadau interim y cyfnod profi ac i nodi opsiynau ar gyfer cyflawni gweithredol yn y tymor hwy.

**<u>Llywodraeth newydd</u>**

Bydd gennym Lywodraeth newydd gyda set newydd o flaenoriaethau a rhaglenni ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Bydd swyddogion Trysorlys Cymru yn trafod gydag ACC i archwilio sut y bydd ei Gynllun Corfforaethol nesaf yn ystyried y blaenoriaethau a'r rhaglenni hyn.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Gadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru a hefyd at yr Ysgrifennydd Parhaol ac at Gyfarwyddwr Trysorlys Cymru.

Yn gywir

**Rebecca Evans AM/AC**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd